**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2006 Rhif 18

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Cyfarwyddiadau i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *31 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16D, 17 a 126 (3) a (4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) a pharagraff 10 o Atodlen 5 iddi, yn gwneud y Cyfarwyddiadau a ganlyn:

**Cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2006 ac fe'u rhoddir i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority).

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn —

(**1**) 1977 p.49. Amnewidwyd adran 17 a 16D gan adran 12(1) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) (“ Ddeddf 1999”), ac fe’i diwygiwyd gan Atodlen 5, Rhan 1, paragraff 5(1) a (3), i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15). Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 16D, 17 (ac eithrio mewn rhai achosion nad ydynt yn berthnasol i’r Cyfarwyddiadau hyn) a 126(3) a (4), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) fel y’i diwygiwyd gan adran 66(4) a (5) o Ddeddf 1999.

ystyr "yr Awdurdod" *("the Authority")* yw Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority);

ystyr "y Gorchymyn" (*"the Order"*) yw Gorchymyn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2005(**1**) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Sefydlu a Chyfansoddiad) (Diwygio) 2006.

**Swyddogaethau'r Awdurdod**

**2.**—Cyfarwyddir yr Awdurdod i gyflawni'r swyddogaethau a bennir yn is-baragraffau (i), (ii), (iv) a (v) o baragraff (a) a pharagraffau (b), (d), (e), (f) (i'r graddau y maent yn ymwneud â chynllun incwm isel y GIG(**2**), y Rhestr Prisiau Cyffuriau(**3**) a materion sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001(**4**)), (j), (m) ac (n) o Erthygl 3 o'r Gorchymyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

31 Mawrth 2006

*Dr. Brian Gibbons*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(**1**) O.S. 2005/2414.

(**2**) Cynllun incwm isel y GIG yw'r cynllun sy'n ymwneud â pheidio â chodi Taliadau GIG a ddarperir o dan Reoliadau'r Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1998 (O.S. 1988/551).

(**3**) Mae'r Rhestr Prisiau Cyffuriau wedi'i llunio a'i chyhoeddi o dan reoliad 19 o Reoliadau'r Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992 (O.S. 1992/662).

(**4**) O.S. 2001/3998.